COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN NEUADD Y SIAMBR – SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 16 EBRILL 2024, AM 2.30PM

Yn bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | WR Goode | J Gebbie | JPD Blundell |

Yn bresennol o bell

| | |
|---|---|
| JC Spanswick | HM Williams |

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o fuddiant

Personol
Cynghorydd JP Blundell – Eitem 12 – Llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gyfun Bryntirion
Cynghorydd J Spanswick – Eitem 11 – Mae’r cynigwyr grant yn aelodau o Gyngor Cymuned Bracla
Cynghorydd J Gebbie – Eitem 12 – Llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Mynyddcynffig

**315. Argymhelliad yn sgil galw penderfyniad y Cabinet i mewn – Defnydd arfaethedig o brotocol trosglwyddo trafodiad tir gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer tir ym Mryncethin a Brynmenyn**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i argymhellion cyfarfod eithriadol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ym mharagraff 3.1 uchod a cheisiodd ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor. |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

**316. Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Stryd y Parc**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br><br>• Cwblhau'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (ynghlwm fel Atodiad 1), i'w gyflwyno fel fersiwn derfynol i Lywodraeth Cymru.<br><br>• Cymeradwyo'r penderfyniad i beidio â gweithredu mesur terfynol y cynllun 'gwneud rhywbeth' – sef Mesur 18, gwrthod pob mynediad i St Leonards Road – oherwydd yr amserlenni ar gyfer ymgynghori am y gorchymyn rheoleiddio traffig, costau, a'r gred nad yw cydymffurfedd naturiol yn debygol o gael ei gyflymu o ganlyniad. Bydd y mesur hwn yn cael ei gadw ac yn cael ei ailystyried yn dibynnu ar ganlyniadau monitro NO2 parhaus yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Stryd y Parc. |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 317. Strategaethau Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2023-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br><br>• Nodi cynnwys yr adroddiad hwn<br>• Cymeradwyo'r tair strategaeth gomisiynu (Atodiad A, Atodiad B, Atodiad C) i'r gyfarwyddiaeth ddatblygu a gweithredu ymhellach y meysydd blaenoriaeth a'r bwriadau comisiynu fel y nodir ym mhob un o'r tair strategaeth, yn ddarostyngedig i'r newid a ganlyn:<br><br>Gwasanaethau mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ailfodelu'r gwasanaeth adweithiol tymor byr a thymor hir<br>Cynnal arfarniad o'r opsiynau |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 318. Cynigion ar gyfer caffael system newydd yn lle system CareDirector (WCCIS)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br><br>• Cymeradwyo ildiad dan Reol Gweithdrefn Contract 3.2.12 i awdurdod lleol arall gaffael system yn lle'r system CareDirector (WCCIS) ar ran y cyngor<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid i drafod a chytuno ar delerau terfynol ac i drefnu i weithredu cynllun rhanbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (neu awdurdod arall os oes angen o dan Opsiwn 2 uchod) ar ran y cyngor, i gefnogi'r broses gaffael a gweithredu unrhyw system newydd<br>• Nodi y bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y broses gaffael a'r sefyllfa ariannol ac i gael cymeradwyaeth i ddyfarnu contract i'r tendrwr |

| | |
|---|---|
| | llwyddiannus<br>• Cytuno i'w rhoi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'w monitro |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

**319. Llinellau adeiladau a gwella**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br>• Cymeradwyo bod y llinellau adeiladau a gwella a amlinellwyd yn Atodiad 1 yn cael eu dirymu a'u tynnu oddi ar y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i awdurdodi diddymu unrhyw linellau adeiladau a gwella hanesyddol eraill y gellir eu nodi mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

**320. Opsiynau’r dyfodol i’r Gwasanaeth Gwastraff ar ôl 2026**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn diwygio'r argymhellion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a gwneud y canlynol:<br>• Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r dadansoddiad ansoddol ac ariannol a wnaed gan Eunomia |

| | |
|---|---|
| | • Peidio â bwrw ymlaen ag ymarfer caffael ar gyfer contract gwastraff newydd ar ôl mis Ebrill 2026 a bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar y modelau cwmni masnachu awdurdod lleol a mewnol<br><br>• Cytuno y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo ar fanylion y gwasanaeth casglu gwastraff hwnnw, cyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2024<br><br>• Cytuno y bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gydag archwiliad manylach o sut mae'r model cwmni masnachu awdurdod lleol yn gweithio mewn rhannau eraill o'r wlad lle maent yn gweithredu gwasanaeth gwastraff<br><br>• Nodi y bwriad i symud i raglen adnewyddu fflyd dreigl newydd ar gyfer cerbydau gwasanaeth gwastraff o 2024. Bydd angen gweithredu hyn trwy adroddiad ar wahân i'r cyngor i'w gymeradwyo, i'w gynnwys yn rhaglen gyfalaf y cyngor. |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

**321. Diweddariad ar brosiect Cronfa Ffyniant Bro Pafiliwn y Grand, Porthcawl**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Nodi bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â chynllun y prosiect, caffael, cyfathrebu, ac unrhyw weithgarwch yn y dyfodol<br><br>• Cytuno i atal Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor ymhellach er mwyn caniatáu i Awen gaffael gweddill gwaith dylunio Cam 4 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ar gyfer Pafiliwn y Grand gyda Purcell's Architects am werth ychwanegol o hyd at £80,418.56 |

| | |
|---|---|
| | • Nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i ddyfarnu'r prif gontract maes o law<br>• Parhau i archwilio cyfleoedd ariannu amgen ar gyfer y prosiect<br>• Gofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU y gall cyllid gael ei wario hyd at fis Mawrth 2023 |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 322. Dull adnoddau cychwynnol y Cynllun Datblygu Strategol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth i weithredu fel swyddog cyswllt y cyd-bwyllgor corfforedig mewn perthynas â chynllunio gofodol rhanbarthol<br><br>Nodi y bydd swyddog cyswllt y cyd-bwyllgor corfforedig yn darparu adroddiadau diweddaru i'r Cabinet ar gynnydd y Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw newidiadau i rôl swyddog cyswllt y cyd-bwyllgor corfforedig, pe bai'n newid, fel y gellir ystyried unrhyw effaith ar y cyngor |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 323. Dyraniadau o dan Gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | Cymeradwyo dyraniad cyllid cyfalaf o £38,124.50 o fewn y rhaglen gyfalaf bresennol o dan Gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2024-25 i ddatblygu prosiectau yn unol â'r ceisiadau penodol y manylir arnynt yn Nhabl 3<br><br>Cymeradwyo bod ail rownd o'r Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned ar gael ym mlwyddyn ariannol 2024-25 er mwyn galluogi cynghorau tref a chymuned i gael y cyfle i gyrchu'r cyllid sy'n weddill o £181,061.50 ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a themâu corfforaethol |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 324. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – bloc pedwar dosbarth a gwaith priffyrdd yn Ysgol Gyfun Bryntirion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br><br>Argymell trosglwyddo £141,000 o gyllidebau cyfalaf y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn at ddiben gwelliannau teithio llesol / gwelliannau priffyrdd sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r bloc pedair ystafell ddosbarth yn Ysgol Gyfun Bryntirion<br><br>Argymell cynnwys cynllun ar wahân ar gyfer gwelliannau teithio llesol / gwelliannau priffyrdd mewn perthynas ag Ysgol Gyfun Bryntirion yn y rhaglen gyfalaf, gyda chyllideb o £141,000 |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 325. Cynllun corfforaethol / cynllun cyflawni ar gyfer 2024/25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Cabinet y canlynol:<br><br>Cymeradwyo cynllun cyflawni drafft arfaethedig y cynllun corfforaethol ar gyfer 2024-25 fel y nodir yn Atodiad 1<br><br>Ystyried gwaith arfaethedig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i gefnogi'r Tîm Perfformiad Corfforaethol i edrych ar y ffordd orau o fesur safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Cynnwys dangosydd perfformiad ychwanegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 326. Diwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y newid i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau fel y nodir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad hwn. |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 327. Eitemau brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 328. Gwahardd y cyhoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nid oedd yr eitem ganlynol i'w chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hon yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael ei wahardd o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth hon. |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

## 329. Cyd-fenter Redstart – diweddariad caffael

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a wnaed | Roedd y penderfyniad hwn yn esempt |
| Dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 16 Ebrill 2024 |

Cwestiwn gan y Cynghorydd Ian Spiller i'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Materion Cyfreithiol

A all yr Aelod Cabinet gadarnhau a yw pob cwmni gwasanaeth ar gontract allanol yn talu “cyflog byw go iawn” i staff?

Daeth y cyfarfod i ben am 7pm